EISTEDDFOD
Llanfihangel-ar-Arth a'r Plwyf

1/3/2025
10:30am

NEUADD YR YSGOL
Llanfihangel-ar-Arth

LLYWYDD:
Mrs Fioled Jones

MYNEDIAD AR Y DYDD / *ENTRANCE FEE ON THE DAY:*

Oedolion/*Adults* £4, Plant/*Children* £1, Aelodau côr neu barti/*Choir or party members* £1

RHAGLEN Y DYDD

EISTEDDFOD LLANFIHANGEL-AR-ARTH A'R PLWYF 01-03-25

Bydd cyfeilydd swyddogol ar gael ond gall pob cystadleuydd ddod â chyfeilydd ei hun.

Rhaid i bob cystadleuydd sydd angen y cyfeilydd swyddogol ar gyfer y Gân Fodern neu Gân allan o Sioe Gerdd neu Ffilm, anfon copi o'r gerddoriaeth ati wythnos o flaen llaw.

BEIRNIAID / *ADJUDICATORS*

Cerdd: Esyllt Thomas, Eglwyswrw

Llefaru a Llenyddiaeth: Jane Altham-Watkins, Abertawe

Celf: Alan a Val Jones, Llanllwni

CYFEILYDD SWYDDOGOL / *OFFICIAL ACCOMPANIST*

Lynne James, Haulfryn, Adpar, Castell Newydd Emlyn SA38 9PX

01239 710114

PWYLLGOR YR EISTEDDFOD

Cadeirydd: Calfin Griffiths

Is-Gadeirydd: Maria Evans

Cyd-Ysgrifenyddion: Anita Evans a Margaret Bowen

Trysorydd: Sioned Bowen

Aelodau: Dawn Rees, Eric Jones, Shân Phillips, Gwyneth Alban, Beth Davies, Morfydd Evans, Esta Jones, Linda Evans, Elinor Flello, Robert Jenkins, Martin Griffiths, Sioned Howells, Rhian Wyn

AELOD O GYMDEITHAS EISTEDDFODAU CYMRU

AMSERLEN Y DYDD / *TIMETABLE FOR THE DAY*

LLWYFAN 10:30am - Croeso gan y Cadeirydd

ADRAN GYFYNGEDIG (i blant Ysgolion Cae'r Felin, Bro Teifi, Brynsaron, Llanllwni a Thalgarreg, ac aelodau Ysgolion Sul y Plwyf o oedran ysgol gynradd)

1. Unawd Blwyddyn 1 a 2	**Cwpan**	**Tarian**	**Medal**
2. Llefaru Blwyddyn 1 a 2	**Cwpan**	**Tarian**	**Medal**
3. Unawd Meithrin a Derbyn	**Cwpan**	**Tarian**	**Medal**
4. Llefaru Meithrin a Derbyn	**Cwpan**	**Tarian**	**Medal**
5. Unawd Blwyddyn 3 a 4	**£15**	**£10**	**£5**
6. Llefaru Blwyddyn 3 a 4	**£15**	**£10**	**£5**
7. Unawd Blwyddyn 5 a 6	**£15**	**£10**	**£5**
8. Llefaru Blwyddyn 5 a 6	**£15**	**£10**	**£5**
9. Canu Emyn	**£15**	**£10**	**£5**
Cyflwynir Gwobr Goffa Freddy Brooker i'r enillydd			
10. Parti Llefaru dan 12 oed (rhwng 6 a 12 aelod)	**£30**	**£20**	
11. Parti Canu dan 12 oed (hyd at 12 llais)	**£30**	**£20**	
Cyflwynir Cwpan er cof am y diweddar Ifor Rees i'r parti canu buddugol			

Cyflwynir Cwpan Her er cof am y diweddar Mr a Mrs Hughes, gynt o Brownhill, Llanfihangel-ar-arth i'r perfformiwr mwyaf addawol yn yr adran gyfyngedig

Cyhoeddi canlyniadau Celf a Llawysgrifen y plant, a chyflwyno Cwpan Her er cof am Heledd Griffiths

ADRAN AGORED Gobeithir dechrau'r adran agored am 2:00pm ***(Gweler rheol 2 os gwelwch yn dda)***

12. Unawd Blwyddyn 1 a 2	**Cwpan**	**Tarian**	**Medal**
13. Llefaru Blwyddyn 1 a 2	**Cwpan**	**Tarian**	**Medal**
14. Unawd Meithrin a Derbyn	**Cwpan**	**Tarian**	**Medal**
15. Llefaru Meithrin a Derbyn	**Cwpan**	**Tarian**	**Medal**
16. Unawd Blwyddyn 3 a 4	**£15**	**£10**	**£5**
17. Llefaru Blwyddyn 3 a 4	**£15**	**£10**	**£5**
18. Unawd Blwyddyn 5 a 6	**£15**	**£10**	**£5**
19. Llefaru Blwyddyn 5 a 6	**£15**	**£10**	**£5**
20. Deuawd - oed ysgol gynradd	**£20**	**£15**	**£10**
21. Unawd Offerynnol - oed ysgol gynradd (un darn yn unig)	**£15**	**£10**	**£5**
Rhoddir gwobr ariannol i'r gystadleuaeth gan Mrs Valerie Davies.			
Cyflwynir Tarian Her Mrs Valerie Davies, Pont-Tyweli i'r enillydd			
22. Canlyniadau Llenyddiaeth Cynradd			
23. Alaw Werin - oed ysgol gynradd	**£15**	**£10**	**£5**
24. Unawd Cerdd Dant - oed ysgol gynradd	**£15**	**£10**	**£5**

4:00pm CYFLWYNO'R LLYWYDD

25. Llefaru Blwyddyn 7-9	**£20**	**£15**	**£10**
26. Unawd Blwyddyn 7-9	**£20**	**£15**	**£10**
27. Llefaru Blwyddyn 10-13	**£25**	**£20**	**£15**
28. Unawd Blwyddyn 10-13	**£25**	**£20**	**£15**
29. Unawd Offerynnol - oed ysgol uwchradd	**£25**	**£20**	**£15**

Rhoddir gwobr ariannol i'r gystadleuaeth gan Mrs Valerie Davies a theulu Maesbwlch.
Cyflwynir Cwpan Her Teulu Maesbwlch i'r enillydd

30. Canlyniadau Llenyddiaeth Uwchradd a chyflwyno Tarian Gwenllan am y darn gorau o waith yn Adran y Plant

31. Alaw Werin - Uwchradd	**£25**	**£20**	**£15**
32. Cerdd Dant - Uwchradd	**£25**	**£20**	**£15**

33. SGEN TI DALENT? Dros 16 oed ***(Gweler yr amodau)*** *Mae'r gystadleuaeth hon yn agored i unigolion neu grwpiau. Ceir 4 munud i ddiddanu'r gynulleidfa drwy: ganu, dawnsio, actio, llefaru, dweud jôcs, chwarae offeryn, perfformio sgiliau syrcas, gwneud triciau - UNRHYW BETH fydd yn diddanu'r gynulleidfa. (Caniateir 2 funud ychwanegol i osod y llwyfan os yw cystadleuwyr yn dymuno defnyddio props/offer/offerynnau cerdd a.y.b)*

£25 **£15** **£10**

34. Unawd 19-25	**£30 a Chwpan Her**	**£20**	**£15**
35. Llefaru 19-25	**£30 a Chwpan Her**	**£20**	**£15**

Cyflwynir Cwpan Her i'r enillydd yn rhoddedig gan Maria Evans

36. Unawd Alaw Werin - agored	**£40**	**£30**	**£20**
37. Cystadleuaeth Perfformio MEWN CYMERIAD: 16-25 oed	**£30**	**£20**	**£15**

Cyfle i unigolyn bortreadu un o gymeriadau enwog Cymru yn seiliedig ar gyflwyniadau gwreiddiol cwmni "Mewn Cymeriad". Perfformiad hyd at 5 munud. Dewis o sgriptiau ar www.steddfota.cymru. Caniateir gwisgoedd a props.

Bydd cystadlu mewn dwy eisteddfod leol rhwng Mai 2024 a diwedd Mai 2025 yn rhoi hawl i gystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam 2025. ***Amodau llawn ar www.steddfota.cymru***

38. Unawd Cerdd Dant - agored	**£40**	**£30**	**£20**

7:00pm SEREMONI'R CADEIRIO a THLWS YR IFANC

39. CYSTADLEUAETH GORAWL CYMDEITHAS EISTEDDFODAU CYMRU **(i'w chynnal yn syth ar ôl seremoni'r Cadeirio)**	£200	£125	£75

Parti neu gôr, unrhyw gyfuniad o leisiau heb fod yn llai nag 20 mewn nifer, i gyflwyno rhaglen o gerddoriaeth hunanddewisiad, heb fod yn hwy na 10 munud, ac i gynnwys darn gan gyfansoddwr o Gymro. Gellid hefyd defnyddio trefniant o alaw werin gan gyfansoddwr o Gymro. Bydd cystadlu mewn dwy eisteddfod leol rhwng Mai 2024 a diwedd Mai 2025 yn rhoi'r hawl i gystadlu yn y gystadleuaeth hon yn Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam 2025.
Amodau llawn ar www.steddfota.cymru

40. Darllen o'r Ysgrythur ar y pryd - agored	**£40**	**£30**	**£20**

(Bydd y beirniad llefaru yn darparu'r darlleniad ar y diwrnod)

41. Deuawd / Triawd - agored	**£50**	**£30**	**£20**
42. Parti Canu / Côr - agored (rhwng 10 a 20 aelod)	**£100**	**£75**	**£50**

Noddwyd gan 'Parti Bro Eirwyn'

43. Cân Fodern neu Gân allan o unrhyw Sioe Gerdd neu Ffilm *(Rhaid i'r cyfeilydd dderbyn copi o'r gerddoriaeth wythnos o flaen llaw)*	**£40**	**£30**	**£20**
44. Canu Emyn - agored *Cyflwynir Cwpan Coffa'r Parch Noel James i'r enillydd*	**£40**	**£30**	**£20**
45. Her Adrodd dros 25 - agored	**£50 a chwpan**	**£30**	**£20**
46. Her Unawd dros 25 - agored	**£50 a chwpan**	**£30**	**£20**

Cyflwynir Cwpan Her National Grid i'r perfformiwr mwyaf addawol yn y Sesiwn Agored

LLENYDDIAETH AGORED *DYDDIAD CAU: 15/02/25*

Rhoddir cadair i enillydd y gystadleuaeth Telyneg
DISGWYLIR I'R LLENOR BUDDUGOL FOD YN BRESENNOL - Gweler rheol 4
Rhoddir beirniadaeth ysgrifenedig os yw'r ymgeisydd yn amgáu amlen wedi'i chyfeirio â stamp arni gyda'r cais

47. Telyneg mewn mydr ac odl heb fod dros 24 o linellau: Atgofion	**£20**
48. Cân Ysgafn heb fod dros 30 o linellau: Agored	**£20**
49. Cerdd Rydd heb fod dros 30 o linellau: Y Daith	**£20**
50. Englyn: Cymwynas	**£20**
51. Limrig sy'n cynnwys y llinell - "Awn eto am drip i Dŷ Ddewi"	**£20**
52. Brawddeg ar y gair MIHANGEL	**£20**
53. Erthygl addas ar gyfer Papur Bro: Y Farchnad Fwyd	**£20**
54. Stori Fer heb fod dros 2,000 o eiriau: Dathlu	**£20**

Rhoddir Cwpan Coffa Gwilym Walters i'r darn gorau o Ryddiaith

55. Darn hyd at 200 o eiriau i ddysgwyr: Cymro/Cymraes ydw i ***Written piece up to 200 words for Welsh learners***	**Cwpan Her a £20**	**£15**	**£10**

TLWS YR IFANC:

DISGWYLIR I'R LLENOR BUDDUGOL FOD YN BRESENNOL - Gweler rheol 4	**Tlws a £75**	**£50**	**£25**
56. Dan 25 oed: Un darn o lenyddiaeth mewn unrhyw ffurf (e.e cerdd, stori, ymson, portread, deialog ac ati), hyd at 2,000 o eiriau. *Bydd gofyn i'r beirniad argymell hyd at 3 darn o waith haeddiannol (gan gynnwys yr enillydd) i'w gynnig i Gymdeithas Eisteddfodau Cymru ar gyfer cystadleuaeth Tlws yr Ifanc yn Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam 2025. Rhoddir £200 i enillydd y gystadleuaeth honno.*			

LLENYDDIAETH ADRAN Y PLANT *DYDDIAD CAU: 15/02/25*

57. Meithrin a Derbyn: Llun a brawddeg neu ddwy - Hunanddewisiad	**Cwpan**	**Tarian**	**Medal**
58. Bl. 1 a 2: Stori - Hunanddewisiad	**Cwpan**	**Tarian**	**Medal**
59. Bl. 3 a 4: Stori - Hunanddewisiad	**£15**	**£10**	**£5**
60. Bl. 5 a 6: Stori - Hunanddewisiad	**£15**	**£10**	**£5**
61. Bl. 7-9: Rhyddiaith - Hunanddewisiad	**£20**	**£15**	**£10**
62. Bl. 10-13: Rhyddiaith - Hunanddewisiad	**£20**	**£15**	**£10**

Rhoddir tarian her gan Deulu Gwenllan, Llanfihangel-ar-arth i'r darn gorau o lenyddiaeth yn Adran y Plant yn y cystadlaethau uchod

LLAWYSGRIFEN *DYDDIAD CAU: 15/02/25* **Dim addurniadau ar y papur - llawysgrifen yn unig**

	Cwpan	Tarian	Medal
63. Lan i Fl. 2: Pennill cyntaf "Nos Da" gan T.Llew Jones			
64. Bl. 3 a 4: Dau bennill cyntaf "Dawns y Dail" gan T.Llew Jones	**£15**	**£10**	**£5**
65. Bl. 5 a 6: "Misoedd y Flwyddyn" gan T.Llew Jones	**£15**	**£10**	**£5**
66. Bl. 7-9: "Cwm Alltcafan" gan T.Llew Jones	**£20**	**£15**	**£10**

Am ragor o fanylion a chopi o'r darnau gosod, cysylltwch â'r cyd-ysgrifennydd:
Margaret Bowen, 01559 362215, wernmacwydd@btinternet.com

CELF / *ART* *DYDDIAD CAU: 15/02/25* **Ni ddylai unrhyw ymgais yn yr adran hon fod yn fwy na maint A3**

	Cwpan	Tarian	Medal
67. Meithrin a Derbyn: "Gwnewch y pethau bychain"			
68. Bl. 1 a 2: "Gwnewch y pethau bychain"	**Cwpan**	**Tarian**	**Medal**
69. Bl. 3 a 4: "Gwnewch y pethau bychain"	**£15**	**£10**	**£5**
70. Bl. 5 a 6: "Gwnewch y pethau bychain"	**£15**	**£10**	**£5**

Rhoddir cwpan her i'r gwaith gorau yn y cystadlaethau uchod gan Mr a Mrs Eifion Griffiths, Y Felin, Gwyddgrug, er cof am eu merch Heledd

71. Celf Agored: Hunanddewisiad ar unrhyw ffurf	**£25**	**£20**	**£15**

****

RHEOLAU AC AMODAU

1. Does dim testunau swyddogol ar gyfer yr Adrannau Cerdd a Llefaru. Gall cystadleuwyr ddewis eu testun eu hunain.

2. Ni chaniateir defnyddio'r un darn gan yr un cystadleuydd mewn mwy nag un gystadleuaeth.

3. Dylai pob cais yn yr Adran Lenyddiaeth gael ei anfon at y Cyd-ysgrifennydd: Margaret Bowen, Wernmacwydd, Llanfihangel-ar-arth, Pencader, Sir Gâr SA39 9LB, erbyn 15/02/25. Rhaid i bob cais ddangos teitl y gystadleuaeth a'r ffugenw. Gyda phob cais rhaid cynnwys amlen dan sêl gyda theitl y gystadleuaeth, y ffugenw, enw, cyfeiriad, rhif ffôn a/neu e-bost y cystadleuydd wedi'u llenwi oddi mewn. Rhowch y ffugenw a theitl y gystadleuaeth ar yr amlen. Gall ceisiadau gael eu hanfon hefyd at **llaa@steddfota.org** ond rhaid cynnwys y manylion uchod.

4. Disgwylir i'r bardd neu lenor buddugol yng nghystadlaethau'r Gadair a Thlws yr Ifanc fod yn bresennol ac mae hawl gan y Pwyllgor i atal y wobr os nad yw'r enillydd yn bresennol yn yr Eisteddfod.

5. Cynnyrch Celf a Llawysgrifen i fod yn llaw'r ysgrifennydd erbyn 15/02/25 (drwy aelodau'r pwyllgor neu drefniant â'r ysgrifennydd o flaen llaw). Rhowch enw, blwyddyn ysgol a'r ysgol neu fanylion cyswllt ar y cefn. **Nodwch nad oes angen ffugenwau ar gyfer yr adrannau hyn.**

6. Dylai pob cais yn yr adrannau Cerdd, Llefaru, Llenyddiaeth a Chelf fod yn Gymraeg.

7. Rhaid i'r cystadleuwyr ofalu am gopïau i'r beirniaid a'r cyfeilydd.

8. Bydd penderfyniad y beirniaid yn derfynol.

9. Ni fydd Neuadd yr Ysgol neu unrhyw aelod o Bwyllgor yr Eisteddfod yn gyfrifol am unrhyw ddamwain neu golled o unrhyw fath a all ddigwydd i unrhyw un sydd yn bresennol.

10. Bydd barn aelodau Pwyllgor yr Eisteddfod yn derfynol.

11. Ni fydd stondin bwyd yn yr Eisteddfod.

12. **Cystadleuaeth "Sgen ti Dalent?"** Rhaid i'r perfformiad fod yn weddus i gynulleidfa deuluol; rhaid i'r perfformiad fod yn yr iaith Gymraeg neu'n ddi-iaith; ni chaniateir i gystadleuwyr berfformio darn a berfformir ganddynt mewn cystadleuaeth arall yn yr Eisteddfod hon.

NODDWYR EISTEDDFOD 2024

Dymuna'r Pwyllgor gydnabod yn ddiolchgar iawn bob rhodd a gweithred er llwyddiant y digwyddiad. Ni fyddai'r Eisteddfod yn ffynnu heb gefnogaeth ei charedigion.

Mae'r Pwyllgor yn ddiolchgar iawn hefyd i'r canlynol:

Julia Davies, Pencader
Gerald a Wendy Coles, Llantwit Fardre
Dr & Mrs John Edwards, Llanfihangel-ar-arth
Ann Phillips, Pencader
John, Helen a Louise Thomas, Gwel-y-cwm, Llanfihangel-ar-arth
Ken a Janet Howells, Gwarallt, Llanllwni (Llywyddion 2024)
Len a Gwyneth Alban, New Inn
Val Davies, Pont-tyweli
Teulu Maesybwlch
Dafydd a Pauline Jones, Dolgran
Aled a Natalie Hall-Jones, Dolgran
Fioled Jones, Pencader
Elinor Flello, Llanfihangel-ar-arth
Dai a Helena Lewis, Llanfihangel-ar-arth
Alun a Morfudd Evans (gan gynnwys cyfraniad 2023 a ddangoswyd fel cyfraniad di-enw yn y rhaglen)
Derek ac Anita Evans (gan gynnwys cyfraniad 2023 nad oedd wedi'i ddangos yn y rhaglen llynedd)
Peter Hughes Griffiths
Cyngor Bro Llanllwni
Statkraft

Dangosir rhestr noddwyr 2025 yn rhaglen y flwyddyn nesaf.

DEDDF RHEOLI A DIOGELU DATA CYFFREDINOL

Ar 25 Mai, 2018, daeth y Rheoliad Gwarchod Data Cyffredinol y cyfeirir ati fel y GDPR i rym. Er mwyn cydymffurfio gyda'r ddeddf Rheoli a Diogelu Data Cyffredinol, mae'n ddyletswydd arnom ni i'ch sicrhau y bydd unrhyw fanylion sydd gennym ar eich cyfer (enw, rhif ffôn, ebost) yn cael ei gadw'n gyfrinachol. Os ydych yn dymuno i ni ddileu eich manylion o'n cofnodion a wnewch chi gysylltu â ni.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:

Margaret Bowen, Wernmacwydd, Llanfihangel-ar-arth, SA39 9LB
01559 362215
wernmacwydd@btinternet.com

neu

Anita Evans, Frongelli, New Inn, SA39 9AZ
01559 384266
anitaevans9@hotmail.co.uk

Cadair a Thlws yr Ifanc 2024 a wnaed gan Hefin Jones, Llanllwni